Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Adroddiad Blynyddol ar Uniondeb Ymchwil 2023-2024

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Adroddiad Blynyddol ar Uniondeb Ymchwil 2023-2024

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

## Cyflwyniad

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi llofnodi'r **Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil** ac, o ganlyniad, mae wedi ymrwymo'n llwyr i'r egwyddorion a'r syniadau a nodir yn y fframwaith hwn. Y ddogfen hon yw datganiad uniondeb ymchwil blynyddol y Brifysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2023-2024.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ymchwil a wneir gan staff academaidd a chan fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Caiff unrhyw ymchwil a wneir gan fyfyrwyr israddedig a myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir ei reoleiddio o dan reoliadau'r Brifysgol ar gyfer cyrsiau a addysgir, a weinyddir gan y Swyddfa Academaidd drwy'r Gweithdrefnau Arfer Annheg.

Mae'r Brifysgol yn credu bod adolygu a chymeradwyo moeseg ymchwil yn bwysig am y rhesymau canlynol:

- Cynnal y safonau uchaf o ran trylwyredd ac uniondeb ym mhob agwedd ar ymchwil;
- Sicrhau bod ymchwil yn cael ei gynnal yn unol â fframweithiau, rhwymedigaethau a safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol priodol;
- Cefnogi amgylchedd ymchwil sydd â diwylliant o uniondeb yn sail iddo, ac sy'n seiliedig ar lywodraethu da, arfer gorau a chefnogaeth i ddatblygu ymchwilwyr;
- Defnyddio prosesau tryloyw, amserol, cadarn a theg i ymdrin â honiadau o gamymddwyn ymchwil pan fyddant yn codi;
- Sicrhau bod y Brifysgol yn bodloni ei goblygiadau yn Rheolwr Data o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data 2018 (“GDPR y DU”) mewn perthynas â phrosesu data ymchwil;
- Cydweithio â sefydliadau eraill fel y bo'n ofynnol o bryd i'w gilydd i gryfhau uniondeb ymchwil ac i adolygu cynnydd yn rheolaidd ac yn agored.

Mae'r gweithdrefnau a’r canllawiau a amlinellir yn y Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil yn berthnasol i'r holl staff academaidd a gweinyddol, y rhai sydd â swyddi anrhydeddus yn y Brifysgol, a'r holl fyfyrwyr sy'n cynnal prosiectau ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig yn rhan o gyrsiau israddedig, ôl-raddedig a byr a rhaglenni ymchwil y mae myfyrwyr wedi'u cofrestru arnynt, a/neu'n cael eu goruchwylio gan staff y Brifysgol. Yr eithriad fydd achosion lle bo'r Prif Ymchwilydd wedi'i gofrestru yn rhywle arall ar yr amod bod y prosiect ymchwil wedi'i gymeradwyo gan bwyllgor moeseg cyfatebol yn dilyn adolygiad moeseg o lefel gymaradwy.

## Llywodraethu

Mae'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil (PMY) yn adrodd i Bwyllgor Ymchwil y Brifysgol ar gyfer ymchwil a wneir gan aelodau staff, ac i Fwrdd y Coleg Doethurol ar gyfer ymchwil a wneir gan fyfyrwyr ôl-raddedig. Mae’n cynnwys aelodau o bob un o Athrofeydd y Brifysgol, ynghyd â chynrychiolwyr o Bwyllgor Graddau Ymchwil a Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol. Hwn yw ei gylch gorchwyl:

1. Rhoi cyngor ac arweiniad ar faterion moesegol sefydledig ac sy'n esblygu, a chyfrannu at ymwybyddiaeth a hyfforddiant moesegol;

2. Sicrhau bod gweithdrefnau'r Athrofeydd ar gyfer ymdrin â materion moesegol a godir o ganlyniad i ymchwil staff neu fyfyrwyr yn briodol, a monitro eu gweithrediad effeithiol a chyson;
3. Ymgynghori â pha bynnag dystiolaeth a safbwyntiau ag y barno'n briodol i sicrhau bod penderfyniadau yn ymwneud â chymeradwyo agweddau moesegol ar ddulliau ymchwil yn seiliedig ar seiliau moesegol yn unig;
4. Rhoi sêl bendith ysgrifenedig i holl brosiectau ymchwil perthnasol y Brifysgol neu gynigion am raglenni gradd ymchwil gydag amodau neu ofynion lle bo hynny'n briodol, neu eu gwrthod yn ysgrifenedig gyda chyfiawnhad;
5. Derbyn adroddiadau rheolaidd gan Athrofeydd ar faterion moesegol a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion moesegol;
6. Ystyried a darparu ymatebion ffurfiol i achosion a gyfeirir ato mewn ymateb i geisiadau gan Athrofeydd;
7. Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Ymchwil a Bwrdd y Coleg Doethurol ar y camau a gymerwyd a'r penderfyniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Cefnogir y PMY yn ei rôl gan y Coleg Doethurol a'r Swyddfa Academaidd. Mae'n derbyn adroddiadau gan yr Athrofeydd unigol a grwpiau ymchwil annibynnol oddi mewn i'r Brifysgol.

Mae'n ofynnol i'r holl staff academaidd ac ymchwilwyr ôl-raddedig gyflwyno ffurflen foeseg i'w hadolygu gan y PMY ar ddechrau eu prosiect ymchwil. Ni chaiff unrhyw waith casglu data ddechrau nes bod yr adolygiad hwn wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. Yn ystod blwyddyn academaidd 2023-2024 craffodd y PMY ar 170 o ffurflenni moeseg (129 gan fyfyrwyr ôl-raddedig, 41 gan staff academaidd), o'i gymharu â 152 yn y flwyddyn flaenorol.

**Camau Gweithredu a Gweithgareddau**

Mae'r PMY yn chwarae rhan fawr wrth arwain y gwaith o ddarparu cymorth a hyfforddiant ym maes moeseg. Mae'r aelodau'n darparu pwynt cyswllt ar gyfer eu Hathrofeydd fel y gall yr holl ymchwilwyr, staff neu fyfyrwyr drafod y materion moesegol sy'n gysylltiedig â'u gwaith gyda rhywun sy'n deall cyd-destun moesegol eu maes. Mae'r dull cyd-destunol hwn hefyd yn ei gwneud hi'n bosibl darparu amrywiaeth o seminarau ar lefel israddedig ac ôl-raddedig sy'n annog staff a myfyrwyr i ymgysylltu â materion moesegol y tu hwnt i gyd-destun uniongyrchol eu hymchwil.

Cynhelir rhaglenni seminarau hefyd sy'n canolbwyntio ar faterion moesegol a phrosesau'r Brifysgol ar gyfer pob myfyriwr ymchwil ôl-raddedig, staff sy'n weithgar ym maes ymchwil a goruchwylwyr PhD. Cefnogir y rhain gan adnoddau sydd ar gael ar dudalennau gwe ymchwil y Brifysgol ac sy'n gysylltiedig â Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr y Brifysgol, Coleg Doethurol y Brifysgol, a'r Ysgol Haf Ymchwil Ôl-raddedig flynyddol. Mae'r addysgu hwn ar uniondeb ymchwil ac ymddygiad moesegol hefyd wedi'i wreiddio yn y cwricwlwm israddedig, yn unol â gofynion cyrff achredu allanol megis Cymdeithas Seicolegol Prydain a Chymdeithas Cyfrifiadurol Prydain. Gwnaed gwaith i gefnogi adrannau i ddarparu ffurflenni adolygiad moesegol pwrpasol ar gyfer ymchwil a wneir gan eu myfyrwyr yn rhan o'u graddau Baglor a Meistr.

Mae gan y PMY ran weithredol yng Ngholeg Doethurol y Brifysgol, sy'n darparu cymuned â ffocws i fyfyrwyr-ymchwilwyr a'u timau goruchwylio. Mae hyn yn ein galluogi i greu adnodd canolog ar gyfer deunyddiau hyfforddi i staff a myfyrwyr, ac rydym wedi cryfhau'r hyfforddiant a ddarperir i dimau goruchwylio ac i staff sy'n dymuno dod yn oruchwylwyr ymchwil. Mae'r Brifysgol yn ddiweddar wedi buddsoddi yng nghwrs hyfforddi Epigeum 2.0 a threfnwyd iddo fod ar gael i'r holl staff ac ymchwilwyr.

Yn ystod gwanwyn 2024 cyflwynodd y Brifysgol Bolisi Ymchwil ac Arloesi Dibynadwy a Pholisi Rheolaeth Allforio, gan ystyried cyngor cyfreithiol priodol er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cyd-fynd yn llwyr â gofynion cyfreithiol presennol. Rydym yn cydymffurfio â Rheolaeth Allforio'r DU sy'n ymwneud â throsglwyddo deunyddiau ymchwil yn electronig neu'n ffisegol, a rheoliadau Ymchwil Dibynadwy ar gyfer cydweithrediadau rhyngwladol. Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn datblygu polisi ffurfiol yn ymwneud â'r rhain a bydd yn rhoi hyfforddiant arnynt maes o law wedi i'r polisi gael ei fabwysiadu.

**Gweithdrefnau'r Brifysgol**

Mae gan y Brifysgol nifer o weithdrefnau a pholisïau sy'n cefnogi uniondeb ymchwil ac sy'n darparu dulliau effeithiol i staff a myfyrwyr roi gwybod am unrhyw bryderon neu ymholiadau. Ymchwilir i unrhyw adroddiadau o'r fath mewn modd teg a thryloyw.

- Polisi Camymddwyn Academaidd
- Polisi Addasrwydd i Ymarfer
- Polisi Rheoli Data Ymchwil
- Polisi Ymchwil ac Arloesi Dibynadwy
- Polisi Rheolaeth Allforio (Ar gael ar Fewnrwyd y Brifysgol)
- Polisi Eiddo Deallusol Myfyrwyr
- Polisi Eiddo Deallusol Staff
- Polisi Chwythu'r Chwiban (ar gael ar Fewnrwyd y Brifysgol)

Caiff y polisïau hyn eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

**Camymddwyn Ymchwil**

Ymdrinnir ag unrhyw achosion o gamymddwyn ymchwil gan ddefnyddio'r weithdrefn yn adran 17 Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y Brifysgol. Ymdrinnir â chamymddwyn ymchwil o fewn prosiectau ymchwil ôl-raddedig drwy Bolisi Camymddwyn Academaidd y Brifysgol.

Cafwyd un achos o gamymddwyn academaidd yn erbyn myfyriwr ymchwil yn ystod blwyddyn academaidd 2023-2024. Cyfaddefodd y myfyriwr, mewn sefydliad partner dramor, iddo gynnwys deunyddiau sylweddol yn ei draethawd ymchwil heb eu priodoli'n gywir. Cyflwynwyd y mater i banel ymchwilio ffurfiol a oedd yn cynnwys staff o PCYDDS a'r sefydliad partner. O ganlyniad gweithredwyd adran 27.3.1.3 o Bolisi Camymddwyn Academaidd y Brifysgol h.y. *Terfynu'r ymgeisyddiaeth ar sail camymddwyn difrifol heb arholi'r traethawd ymchwil*. Mae'r Brifysgol yn fodlon bod hyn yn dangos gweithredu a chymhwyso rheoliadau a pholisïau'r Brifysgol yn briodol.

**Manylion Cyswllt**

Dylid cyfeirio pob ymholiad sy'n ymwneud â'r datganiad blynyddol hwn neu unrhyw weithgareddau a gynhelir gan y Brifysgol mewn perthynas â'r Concordat at un o'r cysylltiadau canlynol:

- Yr Athro Nik Whitehead – Cyd-gadeirydd, Pwyllgor Moeseg Ymchwil
- Dr Rebekah Humphreys – Cyd-gadeirydd, Pwyllgor Moeseg Ymchwil
- Yr Athro Kyle Erickson – Cyfarwyddwr Cyfoethogi Academaidd, Profiad Academaidd

Os oes gan unrhyw un sy'n darllen y ddogfen hon bryderon ynghylch ymddygiad un o ymchwilwyr Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, dylent edrych ar y polisi neu'r weithdrefn briodol yn y lle cyntaf. Os nad ydych yn siŵr pa bolisi neu weithdrefn sy'n berthnasol yn eich achos chi, neu os ydych yn cymryd rhan mewn prosiect ymchwil, cysylltwch â'r tîm Moeseg Ymchwil a nodir uchod.